Cymru Greadigol
Creative Wales

# CANLLAWIAU ALLANOL

## Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth 2 (MCF 2)

**Canllawiau ar gyfer sut i wneud cais am grant**

Bwriad y canllawiau hyn yw'ch helpu i gwblhau'r cais am gyllid Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth 2 (MCF 2) Cymru Greadigol.

Lansio Galwad 1af MCF 2: **13 Mehefin 2023**
Dyddiad Cau Galwad 1af MCF 2: **14 Gorffennaf 2023**

### Cymru Greadigol – Cyd-destun Strategol

Mae'r Diwydiannau Creadigol yn rhan bwysig o economi Cymru, gan greu swyddi a chyfoeth, cyfrannu at frand cenedlaethol cryf a hyrwyddo Cymru yn y byd. Mae Cymru Greadigol yn asiantaeth fewnol o fewn Llywodraeth Cymru, a chafodd ei sefydlu'n benodol i gefnogi twf pellach y diwydiannau creadigol yng Nghymru ac i gynnig gwasanaeth symlach, deinamig ac arloesol i'r sector.

Mae'r diwydiant cerddoriaeth wedi'i nodi fel is-sector blaenoriaeth allweddol, ac mae rhaglen o gymorth i'r diwydiant cerddoriaeth yn cael ei chyflwyno, neu ei datblygu. Mae'r MCF 2 yn rhan bwysig o'r cymorth hwnnw.

### Diben y Gronfa

Mae busnesau cerddoriaeth yn llwyfan bwysig lle gall talentau cerddorol ddatblygu a thyfu a chael eu meithrin arni.

Mae'r diwydiant cerddoriaeth fyw yn hanfodol ar gyfer datblygu cerddorion a chynulleidfaoedd ledled y wlad.

Nod y gronfa yw annog busnesau cerddoriaeth i nodi meysydd o fewn eu sefydliadau a'u gweithgarwch y mae angen buddsoddi ar raddfa fawr ynddynt na fyddai'n bosibl heb gymorth y gronfa, oherwydd cyfyngiadau ariannol presennol.

Diben yr MCF 2 yw bod busnesau cerddoriaeth bach a chanolig yn gwneud cais am gyllid iddi a fyddai'n mynd tuag at wella a chynyddu rhagolygon a chynaliadwyedd masnachol eu busnesau; ac o ganlyniad, gyfrannu at ddatblygiad a thwf y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.

## Pwy sy’n cael gwneud cais?

Bydd angen i geisiadau gan fusnesau cerddoriaeth ddangos mai eu prif swyddogaeth yw rhaglennu, recordio neu gael eu defnyddio ar gyfer ymarfer cerddoriaeth wreiddiol a chynnal a/neu hyrwyddo digwyddiadau cerddoriaeth fyw o natur fasnachol. Gall y gerddoriaeth sy'n cael ei chynnal, ei recordio, ei hymarfer neu ei hyrwyddo gan y busnes gynrychioli’r sbectrwm llawn o fathau poblogaidd o gerddoriaeth gyfoes (electronig; hip-hop; indi ac amgen; metel a phync; pop; roc ac ati).

**Ni** fyddai busnesau sy'n cynnal/hyrwyddo cerddoriaeth sy’n derbyn cymhorthdal yn gymwys am grant o’r gronfa hon, gan fod cymorth ar gyfer y mathau hynny o gerddoriaeth ar gael o fannau eraill (yn bennaf gan Gyngor Celfyddydau Cymru).

Nid ydym yn cael cefnogi ceisiadau gan fandiau, rheolwyr, hyrwyddwyr neu asiantwyr unigol. Hefyd, dim ond y perchnogion sy'n gyfrifol am redeg y busnes fydd yn cael gwneud cais am y cyllid hwn.

- Rhaid i ymgeiswyr weithredu yn y sector Cerddoriaeth yng Nghymru a gallu dangos tystiolaeth bod y cais yn strategol bwysig i les hirdymor y lleoliad a'r diwydiant cerddoriaeth lleol.
- Bydd yr ymgeiswyr yn gweithio ac yn gweithredu ac yn cyflogi staff yng Nghymru.
- Rhaid i ymgeiswyr allu cynnig o leiaf blwyddyn o gyfrifon sydd wedi’u hardystio'n gwbl annibynnol neu ddatganiadau ariannol sydd wedi’u harchwilio (nid oes angen i chi fod wedi cofrestru ar gyfer TAW os yw cyfanswm eich trosiant yn is na'r trothwy cofrestru).
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn berchen yr adeilad sy'n derbyn y gwelliannau neu os yn denantiaid rhaid iddynt gael caniatâd y perchnogion i wneud y gwaith a bod â chytundeb lesddaliad am o leiaf pum mlynedd ar ôl cwblhau'r gwaith.
- Os yw'n briodol, rhaid i ymgeiswyr gael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith bwriadedig.

## Beth ydych chi’n cael gwneud cais ar ei gyfer?

Rhaid i'r cais am gyllid fod yn gysylltiedig â phrosiect sy'n cyfrannu at wella rhagolygon masnachol y busnes ei hun, ac yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cefnogi twf y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.

- Ystyr prosiect yw gweithgaredd ag iddo derfynau amser, gyda dyddiad cychwyn clir a dyddiad gorffen. Felly, ni ellir defnyddio'r gronfa ar gyfer rhywbeth sy'n barhaus a/neu sy'n gysylltiedig â rhedeg y busnes o ddydd i ddydd.
- Rhaid i geisiadau gynnig gwerth da am arian a fydd yn rhan o’r asesiad. Gwnewch gais am yr hyn sydd ei angen arnoch yn unig ac nid yr uchafswm, oni bai bod angen yr uchafswm.
- Caniateir gwneud cais ar gyfer prosiectau sy’n galw am isafswm grant o £25,000 ac uchafswm grant o hyd at £50,000. Bydd angen tystiolaeth o arian cyfatebol ar gyfer unrhyw brosiect dros £50,000.

- Rhaid cefnogi ceisiadau â ddyfynbrisiau cydnabyddedig a, lle bo angen caniatâd cynllunio.
- Ni ddylid cynnwys asedau symudol.

<u>Gwelliannau i adeiladau a'r adeiladwaith</u>

Bydd y mathau o brosiectau o dan y pennawd hwn yn gysylltiedig â gwneud gwelliannau strwythurol yn bennaf i safle'r busnesau, yn enwedig lle mae angen dybryd am foderneiddio'r rhannau allanol er mwyn helpu i ddenu cynulleidfaoedd newydd a/neu dalentau cerddorol.

Gallai enghreifftiau o'r mathau o brosiectau o dan y pennawd hwn gynnwys:

- Gwella hygyrchedd y lleoliad, yn enwedig i gwsmeriaid sydd ag amhariad corfforol.
- Gosod deunydd atal sŵn yn y mannau perfformio.
- Moderneiddio'r addurno, yn enwedig y rhannau yn yr adeilad sy'n wynebu'r cyhoedd.
- Gwelliannau/gosodiadau arwyddocaol – e.e. cyfleusterau cyhoeddus – aerdymheru, diddosi tywydd.
- Gwelliannau arwyddocaol, neu waith adeiladu o'r newydd i ystafelloedd gwyrdd i artistiaid.
- Gwaith atgyweirio i gragen yr adeilad er mwyn atal dirywiad pellach yn ei gyflwr a cholli'i arwyddocâd; *(Gwaith strwythurol, sefydlogi ac amddiffyn dros dro, gwaith toi, trwsio gwaith plwm, adnewyddu systemau dŵr glaw, trwsio gwaith maen, uniadau pren allanol, gorffeniadau amddiffynnol).*
- Gwaith atgyweirio, yn fewnol ac yn allanol sy'n helpu cynigion i allu defnyddio'r ased unwaith eto: *(Yn ogystal â'r gwaith a restrir uchod, gwaith trwsio pren, gwaith plastro, trwsio uniadau pren mewnol).*

<u>Gwelliannau ategol i brofiad cynulleidfa/defnyddiwr</u>

Yn ogystal â'r prif waith cyfalaf bydd buddsoddiadau ategol sy'n gysylltiedig â gwelliannau ychwanegol i safle'r busnesau sy'n mynd tuag at gyfoethogi profiadau cynulleidfaoedd cyflogedig o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw neu ddefnyddwyr y lleoliad, stiwdio neu ofod ymarfer yn cael eu hystyried.

Gallai enghreifftiau o'r mathau o brosiectau o dan y pennawd gweithgaredd hwn gynnwys:

- Amnewidiad neu osod goleuadau newydd.
- Amnewidiad o loriau hen neu wedi'u difrodi.
- Amnewidiad o hen git neu systemau PA (eu gosod).

**Yr hyn na chewch gwneud cais ar ei gyfer**

Ni chewch wneud ceisiadau ar gyfer:

- Cyflogau staff.
- Rhent neu gyfleustodau.
- Ardrethi busnes.
- Costau cychwynnol, e.e. offer a gofod swyddfa, costau recriwtio ac ati.
- Costau a gafwyd cyn dechrau dyfarnu cyllid (llythyr cynnig wedi'i lofnodi a dderbyniwyd gennym ni).
- Costau diswyddo.
- TAW adferadwy.
- Ffioedd cyfreithiol.
- Costau sy'n gysylltiedig â chynllunio.
- Lle nad yw gweithgaredd y prosiect yn cyfrannu at wella lleoliad y gerddoriaeth mewn unrhyw ffordd.
- Offer bach symudol os nad ydych wedi dangos bod ei angen ar gyfer cyflawni y prosiect.
- Dymchwel, oni bai bod angen.
- Cychwyn unrhyw waith cyn dyfarnu'r grant.
- Prynu tir neu adeiladau.
- Astudiaethau dichonoldeb.
- Gwariant nad yw'n wariant cyfalaf.
- Costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo achos credoau sefydliadau gwleidyddol neu ffydd.
- Unrhyw fath o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru.
- Costau a ariennir o ffynonellau eraill o arian cyhoeddus.
- Dyled hanesyddol (cyn 1 Ebrill 2023).
- Swm i dalu am incwm a gollwyd neu i ail-chwyddo'ch cronfeydd wrth gefn.
- Prosiectau sy'n dibynnu ar, neu'n annog, llafur rhydd.

At hynny, ni ellir defnyddio cyllid i reoli na mantoli cyfrifon o fewn gwahanol rannau'r un busnes. Er enghraifft, os yw lleoliad y gerddoriaeth yn cadw cyfrif ar gyfer cerddoriaeth fyw ac adloniant, ac un arall ar gyfer arlwyo.

Dim ond gan fusnesau sydd wedi bod yn masnachu am o leiaf 12 mis y derbynnir ceisiadau, gyda chyfrifon priodol wedi'u ffeilio am y cyfnod hwnnw yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Ni chaniateir defnyddio'r gronfa hon fel arian cyfatebol ar gyfer cais arall am gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Hefyd, ni dderbynnir ceisiadau gan fusnesau sydd ar fin cau, neu sydd mewn perygl mawr o gau. Rhaid i fusnesau ymgeiswyr llwyddiannus bara am o leiaf 12 mis ar ôl

derbyn unrhyw gyllid. Os caiff busnes ei werthu neu os newidir ei bwrpas, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i fynnu cael unrhyw arian a roddwyd yn ôl.

Bydd angen i bob ymgeisydd gyflwyno cyfrifon busnes perthnasol yn ogystal â'r cyfriflenni banc tri mis diwethaf fel rhan o'r cais. Bydd yr wybodaeth honno, a dogfennau perthnasol eraill, yn cael eu defnyddio i benderfynu a yw amgylchiadau ariannol y busnes yn ei wneud yn anghymwys i gael cyllid.

## Faint allwch chi wneud cais amdano?

Pwrpas y cyllid yw i gefnogi gwaith cyfalaf sylweddol, felly gellir gwneud cais i’r MCF 2 am hyd at isafswm grant o £25,000 ac uchafswm o £50,000.

Mae’n rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o gyllid ychwanegol os yw’r prosiect dros £50,000.

## Sut bydd y broses ymgeisio'n gweithio?

### Y Broses Ymgeisio

Bydd yr Alwad hon am geisiadau yn dechrau Ddydd Mawrth 13eg Mehefin 2023, a bydd yn cau i geisiadau ddydd Gwener 14eg Gorffennaf 2023 am 12.00pm. Gwrthodir pob cais sy’n cyrraedd yn hwyr.

Cyn i chi wneud cais, bydd cyfle i chi drafod eich cynnig gydag un o Reolwyr Datblygu Sector Cymru Greadigol dros e-bost yn CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru.

Pwysig – ni fydd trafod eich prosiect ag aelod o'r tîm yn awgrymu bod eich cynnig wedi cael ei gymeradwyo na'i asesu. Cynllun cystadleuol yw hwn a chaiff pob prosiect ei asesu a'i sgorio ar sail meini prawf safonol.

Rhaid gwneud cais i’r MCF 2 gan ddefnyddio Ffurflen Gais yr MCF 2 y bydd angen ei hanfon ar ôl ei llenwi, ynghyd â dogfennau ategol perthnasol (e.e. cyfrifon ariannol a cyfriflenni banc, yn ogystal a ddyfynbrisiau gydnabyddedig am gost y prosiect), i Gymru Greadigol.

Rhaid i’ch cais ddangos eich bod yn gallu cynnal eich prosiect cyn 31 Awst 2024.

Cynhelir prawf Diwydrwydd Dyladwy ar bob cais. Bydd hynny’n golygu edrych ar eich rhagolygon ariannol, eich archwilio rhag twyll, ac archwilio Cyfarwyddwyr eich cwmni. Os oes gennych berthynas â busnes sydd mewn dyled i Lywodraeth Cymru, mae'n annhebygol y cewch wneud cais am ragor o gyllid a dylech drafod hyn gyda ni cyn gwneud unrhyw gais.

Grant cystadleuol yw hwn ac ni chaiff pob cais ei gymeradwyo.  Peidiwch â dechrau ar y prosiect nes bod eich cais wedi'i gymeradwyo a bod llythyr cynnig wedi'i anfon

atoch. Os byddwch yn gwneud hynny, efallai y byddwch yn annilysu eich cais yn llwyr, hyd yn oed os bydd yn llwyddiannus.

### Arfarnu Prosiectau

Bydd Cymru Greadigol yn rhoi grantiau i geisiadau sy'n gyson â'n hegwyddorion allweddol a nodir yn y tabl isod. Er na fyddem yn disgwyl i brosiectau unigol gyflawni'n uniongyrchol pob un ohonyn nhw, rhaid i brosiectau fodloni meini prawf sy’n benodol i’r cynllun hwn, a rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy’n targedu'r meysydd hyn. Felly, dylech deilwra’ch cais i ddangos sut ydych yn eu bodloni;

| **Egwyddorion allweddol cyllid gan Cymru Greadigol** : |
|---|
| Dylai'r cyllid a ddyfernir i fusnesau fodloni’r canlynol: |
| **Ffit Strategol**<br>Gwireddu’n blaenoriaethau ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru - Bydd y cyllid yn gwireddu uchelgeisiau Cymru Greadigol ar gyfer y diwydiannau creadigol, a'r blaenoriaethau yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Bydd yn cynyddu’r cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a thalent, cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant yn eu hystyr ehangaf, gwaith teg, cynaliadwyedd, a hyrwyddo ein diwylliant a'r Gymraeg. Caiff cyllid ei flaenoriaethu i gefnogi’r prosiectau hynny sy'n gwneud gwahaniaeth i’r diwydiannau creadigol yng Nghymru dros y tymor canolig i'r hirdymor. |
| **Cynyddu’r manteision i Gymru, gan gynnwys manteision economaidd**<br>Bydd cyllid yn cael ei dargedu at brosiectau sy'n sicrhau'r elw mwyaf posibl o’r buddsoddiad, er mwyn sicrhau bod cyllidebau cyfyngedig yn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i Gymru. |

Unwaith y bydd eich cais yn ein cyrraedd, a bod yr alwad wedi cau, byddwn yn archwilio ac yn arfarnu’r holl brosiectau fydd wedi cyrraedd erbyn y dyddiad cau ar gyfer galwadau. Byddwn yn ceisio rhoi gwybod i bob ymgeisydd am ein penderfyniadau cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad cau.

Bydd pob prosiect yn cael ei arfarnu mewn dau gam:

- **Cam cyntaf** – cadarnhau bod yr holl feini prawf cymhwysedd sylfaenol yn Atodiad 1 wedi'u bodloni, gan gynnwys sicrhau bod y prosiect yn gyson â'r egwyddorion ariannu allweddol a ddisgrifir yn y tabl uchod. Caiff ceisiadau / prosiectau nad ydynt yn bodloni'r holl meini prawf neu nad ydynt yn bodloni amcanion strategol ein grantiau eu gwrthod.

- **Ail gam** – Bydd ceisiadau sydd wedi bodloni'r holl feini prawf uchod ac ein hegwyddorion ariannu allweddol, yn cael eu gwerthuso yn unol â'r meini prawf gwerthuso yn Atodiad 2. Gan fod hon yn gronfa gystadleuol, ni fydd pob prosiect sy'n cael sgôr pasio gofynnol yn cael ei argymell i’r Gweinidog ei gymeradwyo.

Bydd Llythyr Cynnig Grant yn cael ei roi i'r ymgeiswyr llwyddiannus. Bydd yn disgrifio amodau a thelerau ein cynlluniau grant yn fanylach, a manylion sy'n berthnasol i'r MCF 2 yn unig. Ar ôl cael copi o'r llythyr, bydd angen i'r ymgeisydd ei lofnodi a'i anfon yn ôl atom cyn gynted â phosibl, os yw'n fodlon â'r amodau a'r telerau a ddisgrifir yn y cynnig grant.

Byddwn yn cytuno ar yr amserlen a'r terfynau amser ar gyfer cynnal a chwblhau'r prosiect ynghyd ag amserlen dalu, gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus.

Cedwir golwg bod y prosiect yn parhau i gyflawni'r hyn y cytunwyd arno am hyd at 24 mis ar ôl cwblhau'r prosiect a bydd yn un o amodau'r cynnig o grant.

Fel rhan o'n cefnogaeth, bydd disgwyl i bob cais roi gwybodaeth i ni bob mis i'n helpu i ddatblygu ein cronfa ddata o fusnesau cerddoriaeth fyw. Mae Cymru Greadigol wedi datblygu ffurflen adrodd safonol, a bydd copi'n cael ei rhoi i ymgeiswyr llwyddiannus pan gynigir cyllid i leoliadau ei defnyddio i gasglu'r data sydd eu hangen arnom am hyd at 24 mis ar ôl oes yr MCF 2.

**Allbynnau a chanlyniadau**

Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar nifer o allbynnau a chanlyniadau allweddol, gan gynnwys:

- Prawf o gyfleusterau gwell i berfformwyr a chwsmeriaid.
- Nifer yr unigolion / gweithwyr llawrydd sy'n cael eu cynnal.
- Twf y busnes e.e. cynnydd mewn capasiti.
- Gwella lefelau sgiliau.
- Cyfleoedd i wella amrywiaeth.
- Cyfleoedd i wella cynaliadwyedd.
- Mwy o gyfleoedd i staff.
- Swyddi wedi'u diogelu/creu.

Gofynnir i ymgeiswyr ddewis allbynnau perthnasol wrth wneud cais, a bydd y rhain yn cael eu nodi ar y llythyr cynnig grant.

Mae MCF 2 yn gronfa ddewisol heb broses apelio benodol. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr aflwyddiannus ar ôl i ni wneud penderfyniad a rhoddir cyngor ac adborth iddynt ar eu cais.

**Cymeradwyo Prosiectau**

- Oherwydd faint o gyllid sydd ar gael, dim ond y prosiectau sydd â'r sgôr uchaf ar sail y meini prawf yn atodiad 2 fydd yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru eu cymeradwyo'n derfynol.
- Ar ôl i'r Gweinidog eu hystyried, rhoddir gwybod i'r ymgeiswyr am y penderfyniad terfynol a bydd llythyrau cynnig yn cael eu rhoi i ymgeiswyr llwyddiannus.

- Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus lofnodi'r llythyr cynnig ac anfon un copi i Lywodraeth Cymru cyn i'r prosiect ddechrau.

## Amserlen

Bydd y gronfa'n agor ar gyfer ceisiadau o Ddydd Mawrth 13 Mehefin 2023 ac yn cau ganol dydd ddydd Gwener 14 Gorffennaf 2023 am12.00 yp.

Ein nod fydd asesu'r ceisiadau erbyn canol Medi ond mae'r amseriad hwn yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law.

Bydd y cyfnod ariannu cymwys yn cwmpasu'r dyddiad cymeradwyo ar y llythyr cynnig tan ddiwedd Awst 2024.

Gwrthodir ceisiadau sy'n cyrraedd yn hwyr.

## Proses hawlio ac amodau'r gronfa

### Amserlen Hawlio

Gofynnir i chi roi cyllideb gyffredinol ac amserlen dalu ar gyfer cyfnod cyllido llawn eich prosiect rhwng Medi 2023 ac Awst 2024.

### Talu a Monitro

- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae angen bodloni'r amodau talu a nodir yn amserlen y llythyr cynnig grant i chi.
- Telir yr arian fel ôl-daliadau diofyn. Weithiau, gellir talu'r arian ymlaen llaw, lle gall ymgeisydd ddangos tystiolaeth foddhaol bod angen gwneud hynny.
- Telir hawliadau am ôl-daliadau ar sail tystiolaeth ac ar ôl i'r ymgeisydd gwblhau proffil gwariant a ffurflen hawlio, erbyn diwedd Awst 2024 fan hwyraf. Telir hawliadau ymlaen llaw bob chwarter yn seiliedig ar gostau a ragwelir a'u hadolygu ym mhob chwarter ar gyfer gweddill cyfnod y prosiect. Bydd angen tystiolaeth o wariant ar ddiwedd pob chwarter.
- **'Costau wedi'u Talu'** yw costau nwyddau y talwyd amdanynt neu y byddwch wedi setlo amdanynt mewn ffordd arall. Bydd angen i bob sefydliad gyflwyno tystiolaeth eu bod wedi talu costau, waeth a ydynt yn hawlio rhag-daliad neu ôl-daliad.
- Rhoddir ffurflenni hawlio o ofyn amdanynt a gellir eu cyflwyno drwy E-bost i CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru. Bydd angen i brosiect sy'n cael ei dalu mewn ôl-daliadau ddarparu tystiolaeth lawn cyn y gellir talu unrhyw daliadau iddynt. Bydd manylion y dystiolaeth y bydd angen i chi ei chyflwyno wrth hawlio yn cael eu cynnwys yn eich llythyr cynnig.
- Ar ôl ei gymeradwyo, bydd taliad yn cael ei wneud o fewn 4 diwrnod gwaith.

## Monitro ar ôl Cwblhau

Cedwir golwg bod y prosiect yn parhau i sicrhau’r canlyniadau y cytunwyd arnynt am hyd at 24 mis ar ôl cwblhau'r prosiect a bydd yn un o amodau'r cynnig o grant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso llwyddiant y grant hwn ac mae'n bwriadu cynnal gwerthusiad mewnol o’r MCF 2. Rhagwelir y bydd y gwerthusiad hwnnw’n archwilio’r ffordd y cafodd y gweithgareddau eu cyflawni ac effeithiau’r gweithgareddau hynny. Bydd yn asesu i ba raddau y gellir priodoli'r allbynnau a'r canlyniadau yn uniongyrchol i weithgareddau'r cynllun ac yn archwilio a oes effeithiau ehangach a ragwelwyd neu nas rhagwelwyd wedi'u gwireddu.

Gall Llywodraeth Cymru neu drydydd parti sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru gysylltu â chi at ddibenion ymchwil a gwerthuso a/neu i chi roi adborth ar eich profiad o'r cynllun. Caiff yr wybodaeth hon ei dadansoddi a'i chyflwyno'n ddienw yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd.

## Ad-dalu Grant

Dylai ymgeiswyr nodi y gallai Llywodraeth Cymru ofyn i chi ad-dalu’r grant neu ran ohono os na chaiff yr arian ei ddefnyddio at y dibenion a nodir ar y ffurflen gais. Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb a bydd hyn yn cael ei orfodi drwy ofyn am brawf, ar ôl dyfarnu’r grant.

## Rheoli Cymhorthdal yn y DU

Mae'r cyllid yn gydnaws â Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022 a'r cytundebau cymwys sydd wedi'u cynnwys yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE ac unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n ymwneud â'r DU a Phrotocol Gogledd Iwerddon.

Dyfernir yr arian o dan Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022 yn unol â 'Cynllun Cymorth Diwylliannol a Chreadigol Cymru' wedi’i gofrestru gan Lywodraeth Cymru rhif **SC10468**.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn y Cynllun yn:

Cynllun Cymorth Diwylliannol a Chreadigol Cymru [HTML] | LLYW.CYMRU

## Cyhoeddusrwydd

Bydd angen i bob cais llwyddiannus:

- Gytuno i gael ei gynnwys ar yr holl gyhoeddusrwydd, datganiadau i'r wasg a deunydd marchnata sy’n cael eu cynhyrchu gennym.

- Fel amod ariannu, byddwch yn cytuno i ymgymryd â hyd at 3 blynedd o gyhoeddusrwydd ar y cyd â Cymru Greadigol a gofynnir i chi ddarparu casgliad o ddelweddau a fideos o’r prosiect, a’r hawliau perthnasol, i ni eu defnyddio yn y wasg ac ar gyfer cyhoeddusrwydd. Dylid trafod hyn gydag aelod o dîm Cymru Greadigol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu cyn y caiff deunydd ei ryddhau.

- Hoffem ychwanegu ein holl ymgeiswyr at ein cronfa ddata farchnata i sicrhau eich bod yn derbyn gwybodaeth amserol am opsiynau cymorth pellach gan Cymru Greadigol, ond nid yw hyn yn amod ariannu.

- Bydd disgwyliad hefyd y bydd ceisiadau llwyddiannus yn rhannu delweddau perthnasol a deunyddiau hyrwyddo gyda Cymru Greadigol i'w defnyddio yn ôl y gofyn.

**Y Gymraeg**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo’r Gymraeg a chynyddu’r nifer sy’n ei siarad. Mae'r diwydiannau creadigol yn chwarae rhan allweddol wrth gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi ein huchelgeisiau ac yn cynyddu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae’r blaenoriaethau o ran y Gymraeg yn un o amrywiol feysydd y byddwn yn eu hystyried fel rhan o'n hasesiad o’r ffit strategol wrth adolygu prosiectau.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae amcanion y Ddeddf yn dangos sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i wireddu’r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y 'nodau llesiant'. Mae’r saith nod llesiant yn dangos y math o Gymru yr ydym am ei gweld. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus rhestredig weithio i gyflawni'r holl nodau, nid dim ond un neu ddau. Bydd esbonio sut mae eich prosiect yn bodloni'r nodau hyn yn bwysig wrth asesu cais.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

- Llywodraeth Cymru yw’r Rheolydd Data ar gyfer unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei darparu. Gallwch weld manylion llawn ein polisi preifatrwydd ar y dudalen Hysbysiad Preifatrwydd.

**Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn ein helpu i ddatblygu cronfa ddata o fusnesau cerddoriaeth. Gofynnwn i chi gadarnhau yn eich ffurflen gais eich bod yn hapus i barhau ar sail hyn fel y gallwch barhau i dderbyn cymorth a chyngor gan Lywodraeth Cymru.**

Sicrhewch eich bod wedi darllen, deall a derbyn y 'Canllawiau' a'r 'Hysbysiad Preifatrwydd' **cyn** i chi ddechrau'r cais.

**Atodiad 1**

**Meini Prawf Cymhwysedd**

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn gyntaf ar sail y meini prawf canlynol.

Caiff ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf eu gwrthod yn awtomatig ac ni fyddant yn cael mynd ymlaen i'r cam gwerthuso.

| | |
|---|---|
| Meini Prawf Cymhwysedd | • Rhaid i'r ymgeiswyr fod yn berchen ar yr adeilad dan sylw neu os yn denantiaid, rhaid iddynt gael caniatâd y perchnogion i wneud y gwaith.<br>• Rhaid i'r cais fod gan fusnes cerddoriaeth yng Nghymru – a'i brif swyddogaeth fydd cynnal, hyrwyddo, recordio neu ymarfer cerddoriaeth fyw (ond nid cerddoriaeth glasurol, jazz neu werin gan fod y rhain yn gelfyddydau sy'n derbyn cymhorthdal).<br>• Rhaid i'r prosiect gyfrannu'n uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol at hyrwyddo, cynnal ac ati cerddoriaeth fyw.<br>• Rhaid cyflwyno'r prosiect erbyn 31 Awst 2024.<br>• Rhaid i'r cais gael ei wneud gan y busnes.<br>• Nid yw busnesau sydd mewn perygl o gau cyn bo hir yn gymwys i wneud cais.<br>• Rhaid i ymgeisydd fod yn fusnes neu'n elusen gofrestredig, sydd wedi bod yn masnachu am o leiaf 12 mis. |

**Atodiad 2**

**Meini Prawf Gwerthuso**

Bydd angen i brosiectau fodloni'r egwyddorion ariannu a nodir uchod er mwyn symud i'r ail gam i'w hasesu ar sail y meini prawf canlynol:

| *MP* | *Meini Prawf Gwerthuso* | *Sgôr* |
|---|---|---|
| 1 | **Ffit Strategol**<br>• Cyd-fynd â'r egwyddorion ariannu cyffredinol.<br>• A yw eich prosiect yn cynyddu'r manteision i Gymru, gan gynnwys manteision economaidd.<br>• A yw eich prosiect yn cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru.<br>• Yn gyson â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | /5 |
| 2 | **Ansawdd y prosiect**<br>• Ansawdd gyffredinol y cais.<br>• Arloesedd. | /5 |
| 3. | **Tystiolaeth o Angen**<br>• Pam mae angen cyllid llywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect hwn? e.e., Pam mae angen y cyllid arnoch? A fydd yn cyflymu'r prosiect? A fyddai'n digwydd heb gefnogaeth? | /5 |
| 4. | **Risgiau i'r prosiect a'r cyflawni**<br>Ansawdd yr wybodaeth a roddir i'r:<br>• Tîm Rheoli.<br>• Risg i asedau'r prosiect.<br>• Risgiau'r Prosiect.<br>• Caniatâd cynllunio (Os yn gymwys). | /5 |
| 5. | **Yr hyn y bydd y prosiect yn ei gyflawni**<br>• Ansawdd targedau'r prosiect.<br>• Allbynnau a chyflawniadau, a ddefnyddir i fesur llwyddiant y prosiect.<br>• Gwybodaeth fanwl am sut y cân nhw eu mesur. | /5 |
| 6. | **Costau Prosiectau a  Gwerth am Arian**<br>• Mae'r cynnig cyffredinol yn rhoi gwerth am arian.<br>• Mae gweithgarwch a chostau cysylltiedig yn rhoi gwerth realistig a gwerth gorau.<br>• Costau prosiect, dyfynbrisiau.<br>• Mae'r manteision disgwyliedig yn gymesur â chostau.<br>• Y gallu i gael effaith ar y sector dros gyfnod hirach o amser.<br>• Prawf o gyllid ychwanegol os oes angen. | /5 |
| | **Cyfanswm Terfynol** | /30 |